

Mynediad o Bell i Rwydwaith VOG trwy Docyn RSA ar gyfer

Dyfeisiau Android

Mae mynd ar-lein yn hawdd iawn. Dilynwch y tri cham hawdd hyn yn eu tro a byddwch yn barod i fynd mewn dim o dro!

Y peth cyntaf y bydd angen i chi ei wneud yw lawrlwytho app ar eich ffôn symudol (dyfais personol neu un y gwaith, os oes gennych un) a chael mynediad at yr e-bost y bydd yr adran TGCh wedi ei anfon atoch gyda'r ddolen at y tocyn RSA.

Cam un - Lawrlwytho a gosod ar ddyfais Android


1. Agorwch app **Google Play** ar eich ffôn symudol. Mae'n edrych fel hyn:




2. Chwiliwch am yr app **RSA SecurID Software Token** a dewiswch **install** i'w lawrlwytho. Mae'n edrych fel hyn:



3. Pan agorwch yr app, **derbyniwch y telerau a'r amodau**.
4. Yna, bydd angen i chi fynd yn ôl at eich e-bost ac agor yr un oddi wrth yr adran TGCh sy'n cynnwys eich tocyn/dolen. Dylai ymddangos fel dolen fel hyn:




5. Dewiswch y ddolen a chewch y dewisiadau canlynol, dewiswch yr opsiwn **RSA Token**, ac yna **Always:**



Efallai y gofynnir i chi am gyfrinair - gallwch ddod o hyd i hwn yn yr e-bost gwreiddiol a oedd yn cynnwys y linc i'ch tocyn.


6. Dylai eich tocyn fewnforio nawr ac fe welwch rywbeth tebyg i'r sgrin ganlynol (cofiwch y bydd eich rhifau'n wahanol). Sylwch hefyd ar y cloc cyfrif.



Bydd angen i chi agor yr app hwn bob tro rydych yn dymuno mewngofnodi o'ch cartref.

Cam Dau - Gosod Dull Mynediad ar eich Cyfrifiadur

1. Ar eich gliniadur gwaith, datgysylltwch oddi wrth y VPN neu Cassiopeia ond sicrhewch eich bod wedi cysylltu â'ch rhyngwrwyd cartref.
1. Dewiswch y ddolen **Mynediad o Bell** ar eich bwrdd gwaith i fynd i <https://remoteaccess.valeofglamorgan.gov.uk>.
2. Rhowch eich enw defnyddiwr Windows e.e. gemwilliams.
3. Ar gyfer cod pas, agorwch yr **app tocyn RSA** a rhowch yr 8 rhif a ddangosir. Cofiwch y bydd y rhif hwn yn diweddarau bob 50 eiliad (gweler ffigur 1).
4. Bydd gofyn i chi osod PIN nawr. Dewiswch **yes** a chlicio **logon** (gweler ffigur 2).
5. Dewiswch a theipiwch rif **PIN** rhwng 4 – 8 digid a dewis **logon** (gweler ffigur 3).




Remote Access Logon
for the Vale of Glamorgan
Council.

Username
gemwilliams

Passcode
.....

Logon

Ffigur 1




Enter a new PIN between 4 and
8 alphanumeric characters:

....

Logon

Ffigur 2




To continue you must enter a
new PIN.
Are you ready to enter a new
PIN?

No ▾
No
Yes

Ffigur 3

6. Ar ôl gwneud hyn, bydd wedi ei osod!
7. I fewngofnodi, rhowch eich enw defnyddiwr Windows a'r cod pas ar ffurf PIN, ac wedyn yr 8 digid a gewch gan yr app RSA (gweler ffigur 4).
 - a. Er enghraifft, petai eich PIN yn 9876 a'r app RSA yn dangos 1234 5678, byddech yn rhoi 987612345678 fel y cod pas.
 - b. Cofiwch y bydd y rhif hwn yn diweddarau bob 50 eiliad, dylech ddefnyddio'r rhif diweddaraf.



PIN accepted.
Wait for the tokencode to
change if you have a token.
Please enter a new PASSCODE:


.....

Logon


Ffigur 4

Cam Tri - Mynd Ar-lein


7. Dewiswch y botwm **Mynediad Llawn Bro Morgannwg**:



8. Gofynnir i chi ddewis **Open F5 Network VPN**:



9. Rydych chi nawr wedi cysylltu â'r rhwydwaith ac yn gallu gweithio fel arfer.



Ar Gyfer Mewngofnodi ar ôl hyn

1. Mewngofrestrwch i Windows yn ôl yr arfer.
2. Dewiswch y ddolen **Mynediad o Bell** ar eich bwrdd gwaith.
3. Agorwch yr app RSA ar eich ffôn symudol.
4. Yn y Sgrin Mewngofnodi Mynediad o Bell, rhwch eich Enw Defnyddiwr Windows.
5. Yn y blwch cod pas, rhwch eich PIN ac yna'r 8 digid sy'n dangos yn yr app RSA ar eich ffôn symudol.
6. Dewiswch fotwm **Mynediad Llawn Bro Morgannwg**:
7. Dewiswch **Open F5 Network VPN** pan ofynnir i chi.